

Cystadleuaeth Enwi'r Arth

Rheolau, Telerau ac Amodau



Darllenwch ein telerau ac amodau ar gyfer eich cyfle i ennill Arth Steiff.

1. Mae'r gystadleuaeth yn agored i holl breswylwyr Gwent (rhaid i rieni a gwarcheidwaid ymgeiswyr dan 18 oed gyflwyno cais ar eu rhan).
2. Bydd y gystadleuaeth yn cael ei chynnal rhwng 9am Dydd Gwener 13 Tachwedd a 2pm Dydd Iau 26 Tachwedd. Ni fydd ceisiadau y tu hwnt i'r cyfnod hwn yn cyfrif. Caniateir un cais fesul ymgeisydd, ni fydd unrhyw geisiadau ychwanegol yn cael eu hystyried. Bydd Tîm Cyfathrebu Dyfodol Clinigol yn dewis pum enw terfynol o blith y ceisiadau. Bydd yr enwau ar y rhestr fer yn rhan o bleidlais gyhoeddus ar dudalen Facebook BIPAB ar Ddydd Mawrth 1 Rhagfyr.
3. Gallwch gymryd rhan mewn tair ffordd: (rhaid i rieni a gwarcheidwaid ymgeiswyr dan 18 oed gyflwyno cais ar eu rhan).
 - i. Drwy ein gwefan yn bipab.gig.cymru/dyfodol-clinigol/newyddion-dyfodol-clinigol/
 - ii. Danfonwch e-bost atom gyda'r enw yr ydych yn ei awgrymu, eich enw chi a'ch rhif ffôn i: ABB.NameTheBear@wales.nhs.uk
 - iii. Danfonwch yr enw yr ydych yn ei awgrymu, gyda'ch enw chi a'ch rhif ffôn i: Cystadleuaeth Enwi'r Arth



Tîm Cyfathrebu

Adeilad Pencadlys BIPAB

St Cadog

Caerllion

NP18 3XQ

4. I fod yn gymwys i gymryd rhan yn y gystadleuaeth, rhaid i chi anfon yr enw yr hoffech ei awgrymu, ynghyd â'ch enw chi, eich cyfeiriad e-bost a rhif ffôn. Rhaid i ymgeiswyr fod ar gael drwy'r manylion cyswllt y maent wedi'u darparu. Os, ar ôl sawl ymgais rhesymol, ni ellir cysylltu â'r enillydd, bydd cyfranogiad yr ymgeisydd yn y gystadleuaeth yn dod i ben a bydd yr unigolyn yn y safle nesaf yn cael y wobwr gyntaf..

5. Mae'r wobwr yn cynnwys arth Steiff. Ni roddir arian parod yn ei le ac ni ellir gwerthu na throsglwyddo'r wobwr dan unrhyw amgylchiadau. Caiff yr enillydd ei hysbysu drwy e-bost cyn pen 5 diwrnod gwaith o'r gystadleuaeth yn dod i ben.

6. BIPAB sydd â'r penderfyniad terfynol ynglŷn â'r ymgeiswyr sy'n cymryd rhan a'r enillwyr. Ni ymgwymerir â gohebiaeth mewn perthynas â'r gystadleuaeth.

7. Mae'n bosibl y bydd enw cyntaf yr enillydd yn cael ei gyhoeddi.

8. Mae BIPAB yn cadw'r hawl i: (i) ddiwygio'r telerau ac amodau hyn gan gynnwys, ymhlith eraill, yr amseroedd agor a chau; (ii) dileu ceisiadau gan ymgeiswyr sydd wedi cyflwyno mwy nag un cais a cheisiadau twyllodrus, yn ogystal â diarddel cyfranogwyr os ydym yn amau bod unrhyw weithgaredd wedi digwydd nad yw'n cael ei ystyried o fod o fewn natur y gystadleuaeth.

9. Nid yw BIPAB, eu his-gontractwyr, is-gwmnïau a/neu asiantaethau yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb o gwbl am unrhyw fethiant neu ddiffyg technegol neu unrhyw broblem gydag unrhyw weinydd, system, rhwydwaith neu ddarparwr gwasanaeth neu fel arall a all olygu na ddaeth y cynnig i law neu na chafodd ei gofnodi.

10. Mae BIPAB yn cadw'r hawl i addasu, canslo neu oedi'r gystadleuaeth hon yn ddirybudd.

11. Mae BIPAB yn parchu eich preifatrwydd yn unol â'r deddfau diogelu data personol, gan gynnwys heb gyfyngiadau Rheoliad Diogelu Data yr UE a Deddf Diogelu Data 2018. Os byddwch yn darparu data personol i BIPAB mewn cysylltiad â'r gystadleuaeth hon, bydd BIPAB yn ei brosesu mewn cysylltiad â'r gystadleuaeth yn unig, at ei ddibenion cadw cofnodion ac mewn perthynas â'i weithgareddau sydd ynghlwm â hynny.

12. Bydd cyfranogwyr dan rwymedigaeth i gydymffurfio â'r telerau ac amodau hyn, a byddant wedi'u derbyn.